



# Lawnsio mewn i iaith

## Cefnogi siarad plant yn y cartref

# Amcanion Sesiwn Heddiw

1) Dysgu am ddatblygiad cyfathrebu fy mhlentyn.
2) Siarad am syniadau y gallaf eu defnyddio gartref i gefnogi siarad a chyfathrebu fy mhlentyn.
3) Siarad am beth sydd i ddod nesaf.



# Beth yw cyfathrebu?

Beth mae eich plentyn yn ei wneud os yw'n gweld rhywbeth na all ei gyrraedd?



- Cyfathrebu di-eiriau
- Deall siarad
- Siarad
- Seiniau lleferydd

# Siarad

Mae'r pyramid hwn yn dangos sut mae cyfathrebu wedi'i wneud o wahanol rannau. Mae iaith yn adeiladu ar sylfeini chwarae, rhyngweithio a chanolbwyntio. Mae rhyngweithio cymdeithasol yn bwysig ar bob lefel o ddatblygiad cyfathrebu.

**Lleferydd**

Y synau unigol yr ydych yn eu defnyddio e.e. "k" "s" "b"
Synau gyda'i gilydd yn gwneud gair e.e. c + a + t + h = cath

**Defnydd o Iaith / Siarad**

Defnyddio geiriau a brawddegau llafar, hyd yn oed os nad yw'r synau yn gywir e.e. 'byby' yn lle 'bybyls'

**Dealltwriaeth o'r Iaith Lafar**

Deall beth mae geiriau a brawddegau yn eu golygu

**Sylw a Gwrando**

Canolbwyntio ar iaith neu weithgareddau chwarae a gwrando ar eiriau llafar

**Chwarae**

Archwilio teganau a'r byd o'u cwmpas

**Rhyngweithio Cymdeithasol**

Y sgiliau sydd eu hangen arnom wrth gyfathrebu gyda phobl e.e. aros eich tro, cyswllt llygaid a dangos diddordeb mewn pobl eraill.

# <u>Mae cyfathrebu yn gymhleth</u>

Mewn gwirionedd, mae'r pyramid cyfathrebu yn llawer rhy syml….



# Pa iaith i'w defnyddio?




[Pam mae siarad gwahanol ieithoedd yn y cartref yn rhywbeth gwych i'ch plentyn ifanc - BBC Tiny Happy People]

# Pwy sydd gyda eich plentyn mwyaf?

| | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener | Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7:00** | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref |
| **8:00** | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref |
| **9:00** | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Cartref | Cartref |
| **10:00** | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Cartref | Cartref |
| **11:00** | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Cartref | Cartref |
| **12:00** | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Meithrinfa | Cartref | Cartref |
| **13:00** | Cartref | Cartref | Cartref | ThI&L | Cartref | Cartref | Cartref |
| **14:00** | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref |
| **15:00** | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref |
| **16:00** | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref |
| **17:00** | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref |
| **18:00** | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref |
| **19:00** | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref |
| **20:00** | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref | Cartref |

- Mae cyfraniad rhiant/gofalwr yn hanfodol
- Rhieni/gofalwyr yw’r athrawon gorau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gadael i'm plentyn ddewis sut i chwarae gyda thegan | Gadael i'm plentyn gael ei ddymi wrth chwarae | Defnyddiwch eich iaith eich hun | Aros i fy mhlentyn ddechrau'r sgwrs – gan adael distawrwydd |
| Gofyn i'm plentyn ailadrodd pethau... "Dywedwch...", "rydych chi'n ei ddweud" | Dangos fy mod yn gwrando trwy ailadrodd beth mae fy mhlentyn yn ei ddweud yn gywir | Sylwi ar beth mae fy mhlentyn yn edrych arno | Diffodd y teledu/radio |
| Siaradwch yn glir | Mynd lawr i lefel fy mhlentyn | Cadw eich iaith yn syml | Gofynnwch i fy mhlentyn enwi pethau e.e. "Beth yw hwn?" |
| Pwysleisio geiriau allweddol | Cadw'r ffôn o'r golwg | Rhowch amser i fy mhlentyn siarad | Esgus eich bod chi'n deall fi |

Beth yw eich barn chi? Ydy hi'n ddefnyddiol neu'n annefnyddiol?

## **Clip Video**

- **https://www.bbc.co.uk/tiny-happy-people/articles/z4kk8xs**

# Sgiliau Talu Sylw a Gwrando

Mae angen i blant fedru talu sylw yn dda er mwyn gwrando a dechrau deall iaith. Mae’r gallu i dalu sylw yn datblygu trwy wahanol gamau:

| Lefel Talu sylw | Syniadau i Helpu |
|---|---|
| **Cam 1**<br>Mae’n hawdd tynnu fy sylw. Rwy'n rhoi sylw i rywbeth am gyfnod byr iawn a byddaf yn gwibio rhwng amrywiaeth o bethau | -Dilynwch fy arweiniad a chwarae'r ffordd rydw i'n hoffi chwarae e.e. chwythu swigod, neidio i fyny ac i lawr<br>-Defnyddiwch fy niddordebau a defnyddio rhain yn y gwahanol feysydd chwarae e.e. dinosoriaid yn yr hambwrdd dŵr. |
| **Cam 2**<br>Gallaf dalu sylw ar dasg sy’n fy niddori am gyfnod hirach o amser, ond ni allaf dalu sylw ar fwy nag un dasg. | -Rhowch amser i mi gwblhau gweithgaredd o fy newis<br>-Ceisiwch gael fy sylw trwy alw fy enw neu gyffwrdd fy mraich cyn siarad â mi |
| **Cam 3**<br>Rydw i ond yn gallu rhoi sylw i un weithgaredd ar y tro ond rwy'n dechrau ei ffeindio hi'n haws stopio a gwrando | -Galwch fy enw cyn rhoi unrhyw gyfarwyddiadau i mi neu ddisgwyl i mi ymateb.<br>-Ceisiwch leihau unrhyw bethau eraill sydd yn gallu tynnu fy sylw yn y cefndir |
| **Cam 4**<br>Rwy'n ei ffeindio yn haws symud fy sylw o un dasg i’r llall ac mae angen llai o gefnogaeth oedolion arnaf | -Gadewch i mi wybod pan mae hi’n amser gwrando<br>-Defnyddiwch awgrymiadau gweledol fel dwylo yn yr awyr neu glapio i gael fy sylw<br>-Dywedwch wrthyf y gallaf barhau i weithio wrth wrando arnoch chi |
| **Cam 5**<br>Gallaf wneud gweithgaredd wrth wrando ar oedolyn yn rhoi cyfarwyddyd ond nid oes angen i mi edrych i fyny i wrando arno | Rhowch wybodaeth i mi mewn dilyniant clir, e.e. ‘golcha dy ddwylo a gwisga dy got’ yn lle 'cyn i ti wisgo dy got, golcha dy ddwylo'<br>-Rhowch ganmoliaeth i mi am 'wrando’n dda' |


# Syniadau da ar gyfer cefnogi sgiliau sylw a gwrando eich plentyn

- Lleihau'r sŵn yn y cefndir e.e. diffodd y teledu wrth chwarae gyda mi
- Lleihau pethau gweledol sy’n gallu tynnu fy sylw e.e. cadwch cyn lleied o deganau â phosibl yn yr ystafell lle byddwn yn chwarae, oherwydd po fwyaf o bethau y gallaf eu gweld, y mwyaf tebygol y byddaf yn symud yn gyflym rhwng gweithgareddau
- Dewch lawr i'm lefel gan fod hynny yn fy helpu i edrych arnoch wrth siarad
- Defnyddiwch fy enw i gael fy sylw
- Dilynwch fy arweiniad wrth chwarae a chwaraewch gyda’r teganau rwy'n eu mwynhau gan fy mod wedyn yn fwy tebygol o aros a chwarae am fwy o amser
- Anogwch fi i roi'r gorau i beth rydw i'n ei wneud cyn rhoi cyfarwyddiadau i mi
- Cadwch gyfarwyddiadau yn fyr ac yn syml



# Chwarae

| Lefel o chwarae | Enghreifftiau o chwarae |
|---|---|
| Archwilio gwrthrychau a sefyllfaoedd | Mae eich plentyn yn edrych, clywed, teimlo, arogli a blasu pethau i ddyfalu beth ydyn nhw. |
| Adnabod gwrthrychau | Mae eich plentyn yn dangos dealltwriaeth o wrthrychau **drwy eu defnyddio'n briodol.** Nid ydy eich plentyn yn esgus e.e. efallai y bydd yn codi cwpan go iawn yn cynnwys sudd i'w yfed, neu ddefnyddio crib i frwsio'i wallt. |
| Chwarae â gwrthrychau | Mae eich plentyn yn **esgus defnyddio** gwrthrychau ar ei hun. Efallai bydd eich plentyn yn codi cwpan gwag, gan gynnwys cwpan tegan bach ac esgus yfed. |
| Chwarae cymeriadau e.e. Action Man/Doliau. | Mae eich plentyn yn esgus chwarae ond nawr mae'n cynnwys eraill yn ei chwarae. **Mae'n cynnwys teganau cymeriadau** yn ei chwarae e.e. rhoi diod i degan dinosor. |
| Gweithredu trefnau | Nawr, mae eich plentyn yn gallu **actio trefn syml** drwy chwarae. Er enghraifft, efallai y bydd yn rhoi diod a bisged i dedi neu efallai bydd yn gyrru car bach i'r pwmp petrol a'i lenwi |
| Chwarae Rôl | I ddechrau, mae'n gwisgo dillad gwisg ffansi syml e.e. rhoi het diffoddwr tân ymlaen. Yn raddol, **mae'n cymryd cymeriad cyfan unigolyn** ac yn gallu dychmygu rôl/pethau y tu allan i'w profiad. Dechrau chwarae a chydweithredu gyda phlant eraill gan actio a thrafod sefyllfaoedd. |





## Chwarae

Eisteddwch wyneb i wyneb gyda fi pan rydym yn chwarae!

Gadewch i mi ddewis beth fyddwn ni yn chwarae gyda!

Ymunwch â fy chwarae a dilynwch be’ dwi’n ei wneud!



# Sut i ddefnyddio Amser Sgrin

- Gwnewch amser sgrin yn amser ‘chi a fi’
- Cofiwch hefyd wneud amser i gyd-chwarae i ffwrdd o sgriniau a thechnoleg!

# Deall iaith lafar

**Deall o fewn sefyllfa -** trwy arferion, gwrthrychau, gweithredoedd ac yna trwy ystum / arwyddion.

**Deall y geiriau rydych chi'n eu defnyddio -** heb unrhyw gliwiau.

**Deall brawddegau syml a brawddegau hirach a mwy cymhleth.**



# Sut i helpu:
# gwybodaeth gweledol







# Sut i helpu: Defnyddiwch sylwadau, gofynnwch lai o gwestiynau

**Gofynnwch lai o gwestiynau a rhowch gynnig ar wneud sylwadau yn lle:**



*"Beth sydd gen ti?"*


newidiwch i ***"Dyna falŵn mawr!"***



*"Beth yw hwnna?"*

newidiwch i ***"Hufen iâ blasus"***

# <u>Sut i helpu: Defnyddiwch frawddegau byrrach</u>




Pwysleisiwch y **<u>geiriau pwysig</u>** a'u hailadrodd **<u>dro ar ôl tro.</u>**

# **Gweithgaredd**

Sut allwn ni symleiddio'r brawddegau hyn?

| **Rhy hir....** | **Hawdd ei ddeall....** |
|---|---|
| Cer i gael dy esgidiau a dy got, mae'n amser mynd | Cer i ôl dy **esgidiau** |
| Rho dy ddiod i lawr a nôl dy got oherwydd rydyn ni'n mynd nawr. | **Stopia** |
| Rydw i wedi dweud wrtha ti am roi'r gorau i ymladd â dy frawd a dod i eistedd i lawr, mae'n amser cael swper. | Mae'n **amser swper** |
| O edrych! Pa liw yw'r bêl? | Mae'r bêl yn **fawr** |

# Datblygu defnydd o iaith

**Darganfyddwyr -** efallai y byddaf yn crio oherwydd fy mod wedi blino neu'n llwglyd neu'n teimlo'n anghyfforddus. Efallai y byddaf yn chwerthin neu'n gwichian ac yn gwenu ac yn gwneud synau parablu.

↓

**Cyfathrebwyr -** Rwy'n dechrau dangos dealltwriaeth o arferion a beth sy'n digwydd nesaf e.e. pan fyddwch chi'n rhedeg bath rwy'n cynhyrfu oherwydd rwy'n gwybod y byddaf yn chwarae yn y dŵr. Rwy'n dangos i chi beth rydw i'n ei hoffi neu ddim yn ei hoffi trwy droi i ffwrdd. Gallaf ddefnyddio gwahanol synau e.e. chwythu “raspberries” a pharablu. Efallai y byddaf yn defnyddio rhai ystumiau neu'n gwneud fy arwyddion fy hun ar gyfer pethau e.e. yn pwyntio at fy nghlwt neu'n pwyntio at fy ngheg **pan fyddaf eisiau bwyd.**

↓

**Defnyddwyr geiriau cyntaf -** rwy'n gallu dweud geiriau syml i enwi a gofyn am bethau. Efallai y byddaf yn dechrau defnyddio geiriau cyntaf fel ‘na’ ‘ie’ ‘eisiau ‘fi’ ‘hwnna’ neu eiriau sy’n bwysig i mi fel ‘car’.

↓

**Cyfunwyr -** Pan fyddaf yn defnyddio tua 50 gair, efallai y byddaf yn dechrau eu rhoi gyda'i gilydd. Efallai y byddaf yn defnyddio geiriau a brawddegau byr i wneud sylwadau, disgrifio a gofyn cwestiynau syml.

# Beth allwch chi ei wneud i helpu?

## Darganfyddwyr

Dewch wyneb yn wyneb gyda fi. Gall hyn fod ar y llawr neu ar gadair. Rhowch eich ffôn i ffwrdd ac eisteddwch gyferbyn â mi.


Mae'n llawer haws i mi wrando, canolbwyntio a dysgu pan fyddwch chi ar fy lefel i.

- Dangoswch i mi sut i gymryd tro heb eiriau e.e. os ydw i yn chwythu swigod (blow raspberries), copïwch fi ac arhoswch i weld os ydw i yn gwneud e eto.

## Cyfathrebwyr

Dywedwch y geiriau y byddwn i'n eu dweud pe gallwn. Er enghraifft os dwi'n dod â phaced o greision atoch oherwydd na allaf eu hagor gallwch ddweud "agor y creision" i'm helpu i wybod beth i'w ddweud.

- Cynigiwch ddewisiadau i mi er mwyn i mi allu clywed y geiriau y mae angen i mi eu defnyddio ar gyfer pethau rydw i eisiau. Er enghraifft amser cinio neu fyrbryd, gofynnwch i mi a ydw i eisiau 'llaeth neu sudd'? Daliwch y ddwy eitem allan i mi er mwyn i mi allu edrych a gwneud y dewis. Pan bwyntiaf at un, dywedwch beth ydyw er mwyn i mi allu dysgu ei enw.




## Defnyddiwr gair cyntaf

Pan fyddaf yn tynnu eich sylw at rywbeth, dywedwch wrthyf beth ydyn nhw. Er enghraifft, os edrychaf ar injan dân, pwyntiwch ato a dywedwch wrthyf "dyna ti, injan dân"

- Peidiwch â gofyn llawer o gwestiynau i mi fel "Beth yw hwn?", "Pa liw yw hwn?", "Ai injan dân yw honno?" Gall wneud i mi deimlo'n rhwystredig iawn os nad wyf yn gwybod yr ateb a dydy hynny ddim yn fy helpu i ddysgu beth i'w ddweud.

## Cyfunwr

- Dangoswch i mi sut i wneud fy mrawddegau yn hirach. Os ydw i'n defnyddio 1 neu 2 air, ailadroddwch beth rwy'n ei ddweud yn ôl ac ychwanegwch ychydig o wybodaeth newydd.



## Siarad yn glir

Mae’n eithaf cyffredin fod plant ag anawsterau iaith yn siarad yn aneglur. Os yw'ch plentyn yn cael anhawster mewn un neu fwy o feysydd eraill, gallai fod yn bwysig targedu'r meysydd hyn yn gyntaf, gan mai dyma'r sylfeini cyfathrebu.

**Sut i helpu:**

- Ymatebwch i beth rwy'n ei ddweud, nid pa mor glir rwy'n ei ddweud
- Ailadroddwch beth rwy'n ei ddweud yn gywir ... peidiwch â gwneud i mi ailadrodd geiriau
- Peidiwch ag esgus eich bod yn deall ... gofynnwch i mi ddangos i chi

**Ffeithiau am ddymis**

- Gall sugno dymi achosi problemau deintyddol a all fod yn anodd eu cywiro, e.e. dannedd blaen ymwthiol neu frathiad agored
- Gall defnyddio dymi arwain at heintiau ar y glust.
- Gallai siarad gyda dymi yn y geg atal y tafod rhag symud yn rhydd o amgylch y geg a ffurfio seiniau lleferydd yn gywir.
- **Erbyn i'r plentyn fod yn 18 mis oed, yn lle bod yn gysurwr bydd wedi dod yn arferiad.**





# Rhyngweithio Cymdeithasol

Efallai fy mod i’n gallu siarad ond a ydw i’n gallu cyfathrebu'n effeithiol?

Er mwyn cyfathrebu'n effeithiol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, mae angen i mi:

- defnyddio cyswllt llygad priodol
- gwrando
- gallu deall y person arall
- gwybod sut i ddechrau sgwrs
- gallu cymryd tro

Mae angen y sgiliau hyn arna i fel sail i ddatblygu sgiliau lleferydd ac iaith (Hanfodion Cyfathrebu).



# Datblygiad Rhyngweithio Cymdeithasol

Rwy'n rhannu fy sylw â pherson arall e.e. Chwythu swigod gyda'n gilydd, edrych ar lyfr.

Byddaf yn dechrau defnyddio iaith i gael beth rwyf eisiau ac i ymateb i eraill e.e. Efallai y byddaf yn dod atoch chi ac yn dweud ‘diod’. Byddaf eisiau siarad am bethau sydd o ddiddordeb i mi.





Rwy'n defnyddio ffyrdd eraill i gyfathrebu e.e. pwyntio, dangos, ystumiau, mynegiant wyneb, synau.

Rwy’n dechrau cyfathrebu ag eraill, yn cynnwys pobl anghyfarwydd.

## Cefnogi rhyngweithio cymdeithasol

- Cymryd tro e.e. Adeiladu twr gyda blociau, rolio pêl nôl ac ymlaen at oedolyn
- Defnyddio rhyngweithiau di-eiriau e.e. Pwyntio i ofyn am eitem, anogwch fi i defnyddio ystum pan rwyf eisio cael i pigio fyny
- Rhyngweithiau cynnar e.e. Gemau pobl, pi-pô, swigod
- Creu cyfleuoedd cyfathrebu e.e. Cynnig dewis, anogwch fi i ofyn am mwy/help







## **Cynllun cartref**

Byddwch yn gwneud llawer o bethau i gefnogi cyfathrebu eich plentyn yn barod heb sylweddoli.
Cymerwch olwg ar y rhestr hon a thiciwch beth rydych yn ei wneud yn barod.
Meddyliwch am 1 neu 2 o bethau newydd hoffech roi cynnig arni

| | Strategaeth | Rwy'n gwneud hyn yn barod | Rwyf eisiau gwneud mwy o hyn |
|---|---|---|---|
| 1 | Rwy'n eistedd yn wynebu fy mhlentyn ar ei lefel ef/hi wrth chwarae (Wyneb yn Wyneb) | | |
| 2 | Rwy'n gadael i'm plentyn ddewis gyda beth yr hoffai chwarae (Arsylwi) | | |
| 3 | Rwy'n rhoi amser i fy mhlentyn i gyfathrebu drwy ganiatáu distawrwydd (Aros/Gwrando) | | |
| 4 | Rwy'n ymuno yn y ffordd mae fy mhlentyn eisiau chwarae (Dilyn ei gyfarwyddyd) | | |
| 5 | Rwy'n sylwi ac yn siarad am beth mae gan fy mhlentyn i ddiddordeb ynddo (Gwneud sylw) | | |
| 6 | Rwy'n ymateb hyd yn oed os nad ydw i'n ei ddeall drwy ei ailadrodd neu ddweud beth mae'n ceisio ei ddweud (dynwared/dehongli) | | |
| 7 | Rwy'n ychwanegu at beth mae fy mhlentyn yn ei ddweud drwy ddweud brawddeg sy'n fwy cywir yn ramadegol (Ychwanegu Mwy o Eiriau) | | |
| 8 | Rwy'n defnyddio mwy o sylwadau na chwestiynau (Lleihau'r Pwysau). | | |
| 9 | Rwy'n aros fy nhro wrth ymateb i fy mhlentyn pan mae'n ceisio dweud rhywbeth wrtha i i geisio cadw'r sgwrs i fynd (Aros fy nhro) | | |

# Unrhyw gwestiynau?

